# JOHNS, WILLIAM (1771 - 1845), gweinidog ac athro Undodaidd, ac awdur

**Enw:** William Johns
**Dyddiad geni:** 1771
**Dyddiad marw:** 1845
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog ac athro Undodaidd, ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1771 mhlwyf Cilmaenllwyd (Caerfyrddin, ar ochr Sir Benfro). Ni wyddys ddim am ei dras, ond gellir nodi bod y cyfenw John(s) yn gyffredin yng nghofnodion eglwys Glandwr, Sir Benfro (gweler J. Lloyd James, *Hanes Eglwys Gland r*, 141-3), a ofalai am Annibynwyr Cilmaenllwyd. Anghyson hefyd yw'r adroddiadau o'i ddyddiau bore. Dywedir iddo weithio ar dyddyn ei dad (ac na fedrai ddim Saesneg) nes bod yn 16 oed - eto dywedir iddo, yn yr oedran hwnnw, fynd i gynorthwyo'r Dr. Edward Williams gyda'r ieithoedd clasurol, yn academi Croesoswallt. Gellid dyfalu iddo fod yn ysgol hyglod John Griffiths (1731 - 1811) yng Ngland r. Bu dan nawdd y Bwrdd Cynulleidfaol o 1789 hyd 1793; bwrier felly iddo fod yng Nghroesoswallt yn 1789-90, ond o 1790 ymlaen bu yn academi Northampton. Yno, ymadawodd â'i Galfiniaeth - ac â'i Drindodiaeth. Bu'n weinidog yng Nghaerloyw a Totnes. Yn 1799 dewiswyd ef yn athro'r clasuron yn academi Manceinion, ond yn 1800 cododd ysgol yn Wrecsam; ymhen ychydig fisoedd symudodd hi i Nantwich, gan fugeilio'r gynulleidfa Undodaidd yno hefyd o 1801 hyd 1803. Symudodd ei ysgol drachefn, yn 1804, i Fanceinion; bu gyda hynny'n weinidog am ysbaid yn Partington, sir Gaerlleon, ac wedyn, o 1805 hyd ychydig cyn ei farw, yn weinidog Sale. O 1803 hyd 1830 bu'r gwyddonydd enwog John Dalton (a oedd ar y pryd yn athro yn academi Undodaidd Manceinion) yn lletya yn ei dy, a chydweithiai'r ddau gyfaill gyda'r ' Manchester Literary and Philosophical Society ' yr oeddynt yn gydysgrifenyddion iddi. Sgrifennai Johns yn fynych i'r *Monthly Repository*, a chyhoeddodd naw o lyfrau, yn eu plith weithiau gramadegol, gwerslyfr ar lysieueg, 'ymddiddanion' a'r y Drindod a'r pechod gwreiddiol, ac ymdriniaeth â'r rhagymadrodd i'r Bedwaredd Efengyl. Bu farw 27 Tachwedd 1845 yn Higher Broughton.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

*Album Aberhonddu ... o'r flwyddyn 1755 hyd 1880* (1898), 37

McLachlan, *English Education under the Test Acts* (1931), 169, 258 (dyddiadau gwallus)

G. Eyre Evans, *Vestiges of Protestant Dissent being lists of minister, sacramental plate, registers, antiquities, and other matters pertaining to most of the churches ... included in the National Conference of Unitarian, Liberal, Christian Free Christian, Presbyterian, and other non-subscribving or kindred congregations* (Lerpwl 1897), 179, 217, a *Midland Churches. A history of the Congregations on the Roll of the Midland Christian Union* (1899), 139


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18672856


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu